Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cofnodion cymeradwy
# cyfarfod Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr
# a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2022, ar Teams

| | |
|---|---|
| **Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol** | |
| Mr R Davies (RD) – Cadeirydd | Rheolwr Grŵp - Cymorth Busnes |
| Mrs D Davies (DD) - Ysgrifennydd | Prif Swyddog - Strategaeth Fusnes a Pherfformiad |
| Y Cyng. Dr C Smith (Cyng. Smith) | Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio |
| Ms R Garner (RG) | ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) Arweinydd y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a CMMI (Namau Meddygol ac Echddygol Cymhleth) |
| Ms B Davies (BD) | Rheolwr Tîm Gofal Plant |
| **Cynrychiolwyr ysgol** | |
| Mr J Tarran (JT) – Is-gadeirydd | Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Archddiacon John Lewis |
| Mrs R Dixon (RDi) | Pennaeth, Ysgol y Ferch o'r Sgêr |
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |
| Mr A Slade | Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl |
| **Cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr** | |
| **Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod** | |
| Ms C Christy (CC) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

## 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd RD pawb i'r cyfarfod a gwnaed y cyflwyniadau.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022

Cafwyd trafodaeth ynghylch nifer y cyfarfodydd fesul blwyddyn academaidd a chytunodd pawb a oedd yn bresennol y dylid parhau i gynnal dau gyfarfod y flwyddyn.

Cynigwyd RD, JT a DD i fod yn Gadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd. Cymeradwywyd y cynnig gan bawb a oedd yn bresennol. Derbyniwyd RD, JT a DD y swyddi ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022 ar sail yr ymrwymiad o ddau gyfarfod y flwyddyn.

## 3. Aelodaeth y fforwm

Cyflwynodd DD bapur yn rhoi gwybodaeth gefndir am y gofynion ynghylch aelodaeth fforymau derbyn, a chynigion ar gyfer aelodaeth y fforwm ar gyfer 2021-2022, i'w cadarnhau'n ffurfiol.

Roedd uchafswm nifer yr aelodau a oedd yn cynrychioli ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yn cael ei gynnal. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes gan y fforwm unrhyw gynrychiolwyr o'r esgobaethau o hyd. Parhaodd JT i gynrychioli'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (VA) a nodwyd y gall fod hyd at dri chynrychiolydd o ysgolion VA.

Amlinellodd DD y camau a gymerwyd i gynyddu nifer y rhiant-lywodraethwyr ac i gynrychiolwyr cymunedol ymuno â'r aelodaeth. Nodwyd bod llythyr wedi'i anfon at bob rhiant-lywodraethwr a llywodraethwr cymunedol yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb, ond ni dderbyniwyd yr un. Yn ffodus, roedd WB wedi bod yn fodlon parhau fel aelod rhiant-lywodraethwr. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod y Cynghorydd Smith yn gynrychiolydd o'r gymuned, a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr aelodaeth yn unol â hynny. Gydag RG a BD yn aelodau newydd, nifer yr aelodau awdurdod lleol ar gyfer 2021-2022 fyddai pedwar, gydag uchafswm o bump yn cael ei ganiatáu.

Cadarnhawyd y penodiad a'r ailbenodiadau fel y cynigiwyd, gyda newid y Cynghorydd Smith fel cynrychiolydd cymunedol.

Argymhellodd DD fod y fforwm yn ystyried adnabod a phenodi unigolion eraill na fyddant yn aelodau craidd, ond a allai wneud cyfraniadau buddiol. Fel enghraifft, dywedodd DD fod Mr Jeremy Evans, Pennaeth Ysgol Heronsbridge, wedi rhoi'r gorau i fod yn aelod craidd o ganlyniad i uchafswm niferoedd a ganiateir o dan bob categori. Fodd bynnag, gellid gwahodd Mr Evans i fod yn aelod di-graidd.

O ran cynrychiolwyr esgobaethol, dywedodd CG fod gan Fforwm Derbyn Rhondda Cynon Taf gynrychiolydd o swyddfa'r esgobaeth Gatholig yng Nghaerdydd ond dim cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru. Cytunwyd y byddai DD yn cysylltu â swyddfa'r esgobaeth Gatholig yng Nghaerdydd ac y byddai JT yn cysylltu â swyddfa esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru yn Llandaf ynghylch cynrychiolaeth bosibl ar y fforwm yn y dyfodol.

## 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2021 a materion yn codi

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

Nid oedd yna unrhyw faterion yn codi.

## 5. Rôl y fforwm a rhaglen waith ddrafft 2021-2022

Cyflwynodd DD bapur i'r aelodau ac amlinellodd mai ei ddiben oedd bod yn atgof o rôl y fforwm a'i fod yn argymell cynllun gwaith i sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau'n cael eu cyflawni.

Tynnodd DD sylw at y ffaith, gan fod cyfarfod cyntaf 2021-2022 yn cael ei gynnal ym mis Ionawr, sef tymor y gwanwyn, y byddai angen i'r cyfeiriadau at gyfarfod tymor y gwanwyn ymwneud â chyfarfod tymor yr haf.

Dywedodd DD wrth yr aelodau mai bwriad y cynllun gwaith oedd sicrhau lefel briodol o ffocws, nid yn unig ar faterion polisi, ond sut yr oedd polisi wedi'i roi ar waith.

Tynnodd DD sylw at y ffaith mai dim ond un o'r awdurdodau derbyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod lleol a bod gan y fforwm rôl a chyfrifoldebau trosfwaol mewn perthynas â derbyniadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn benodol o ran monitro a sicrhau bod awdurdodau derbyn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau statudol perthnasol. Felly, dylai'r fforwm ystyried sut y gallai gyflawni'r cyfrifoldebau trosfwaol hynny a chynigiwyd y byddai'r cynllun gwaith a'r cyfranwyr arfaethedig yn un dull addas gan fod y cynllun yn seiliedig ar yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir (VA) yn darparu gwybodaeth debyg i'r hyn a ddarperir gan yr awdurdod lleol.  Mewn trafodaethau, cydnabuwyd bod angen i'r fforwm gryfhau llif gwybodaeth fel ei fod yn derbyn ac yn ystyried polisïau derbyn drafft yr holl ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, fel elfen allweddol o'r ymgynghoriad, ac yn derbyn adroddiadau sy'n rhoi tystiolaeth o weithrediad y polisïau yn ymarferol.

Cytunwyd y byddai JT yn cychwyn trafodaethau gyda chydweithwyr yn yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, wedi'i ddilyn gan gyfarfod rhwng JT a DD i drafod trefniadau penodol.

## 6. Adroddiad Blynyddol Drafft Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr 2020-2021

Atgoffodd DD yr aelodau fod angen i fforymau derbyn gynhyrchu adroddiad blynyddol a darparu copi i Lywodraeth Cymru.  I hwyluso hyn, mae Llywodraeth Cymru yn darparu templed adroddiad ar gyfer pob blwyddyn.  Tynnodd DD sylw at y ffaith bod rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi.

Cyfeiriodd DD yr aelodau at yr adroddiad drafft ar gyfer 2020-2021 a dywedodd fod y drafft wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru yn dilyn cais am adroddiad ymlaen llaw.

Gan y dylai'r adroddiad gwmpasu pob awdurdod derbyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd bylchau yn y wybodaeth yn y drafft yn ymwneud ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, yr oedd angen mynd i'r afael â hwy. Ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai'r ffocws mewn perthynas â phenderfynu ar y trefniadau derbyn a chytunwyd y byddai DD yn cysylltu â'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i holi am y wybodaeth sy'n weddill, gyda chefnogaeth JT.

Ar gyfer y dyfodol, cynigiwyd a chytunwyd y dylai'r adroddiad gael ffocws newydd ym mhob ffordd.  Dylid ei ddrafftio i ddechrau i adlewyrchu gwybodaeth yr awdurdod lleol, dylai DD a JT ei ystyried, ac yna ei anfon at yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gyda chais iddynt ychwanegu eu gwybodaeth at gynnwys rhai adrannau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â gweithgaredd derbyn cydlynol a darparodd DD wybodaeth gefndir ychwanegol. Tynnodd DD sylw at y ffaith nad yw rhai rhieni/gofalwyr y mae eu plant yn cael cynigion deuol ar gyfer Blwyddyn 7 gan yr awdurdod lleol, ar gyfer Ysgol Gyfun Bryntirion, ac Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath, yn aml yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol pa gynnig sy'n cael ei dderbyn tan ddiwedd gwyliau haf yr ysgol. Gall hyn arwain at gyfleu cynigion am leoedd a wrthodwyd i rieni/gofalwyr ychydig ddyddiau cyn dechrau'r flwyddyn ysgol.

Dywedodd CC bod sefyllfa debyg yn digwydd yn RhCT. Fodd bynnag, mae'r ysgolion dan sylw yn rhoi rhestr i'r awdurdod lleol o'r holl ddisgyblion sydd wedi gwneud cais am leoedd Blwyddyn 7 ac yn nodi faint o leoedd fydd yn cael eu cynnig. Felly, mae rhieni/gofalwyr sydd wedi gwneud cais i fwy nag un awdurdod derbyn yn cael eu hadnabod yn gynnar.

Codwyd pryder gan y Cyng Smith ynghylch y goblygiadau i rieni/gofalwyr disgyblion sy'n dymuno mynd i Ysgol Gyfun Bryntirion. Mynegodd y Cynghorydd Smith gefnogaeth gref i gydweithio cynnar rhwng yr awdurdod lleol ac Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath, a chyfathrebu â rhieni/gofalwyr lle bu cynigion deuol, gyda'r nod o gynnig lleoedd i ddisgyblion ar y rhestr aros cyn gynted â phosibl.

Cafwyd trafodaeth ar rinwedd ystyried gofyniad polisi i rieni/gofalwyr gadarnhau o fewn amserlen benodol a oedd lle a gynigiwyd yn cael ei dderbyn. Nodwyd bod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei wneud gan rai awdurdodau derbyn yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'r gallu i brosesu cyfathrebiadau o'r fath yn bryder yn ogystal ag a fyddai unrhyw sancsiwn yn dderbyniol yn ôl y gyfraith pe bai rhiant/gofalwr yn methu â chydymffurfio. Cytunwyd i drafod hyn gyda chydweithwyr yn yr adran Gwasanaethau Cyfreithiol.

Nodwyd bod y data yn yr adroddiad drafft yn dangos bod ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir wedi derbyn ceisiadau dros y nifer derbyn cyhoeddedig (PAN). Nid oedd yr union resymau dros fynd dros y PAN yn hysbys. Amlygwyd bod y nifer derbyn cyhoeddedig yn adlewyrchu gallu'r ysgol i dderbyn plant yn ddiogel. Mae pob awdurdod derbyn o dan yr un gofynion a dyletswyddau o ran capasiti a niferoedd derbyn, a ddylai gael eu hadlewyrchu mewn polisïau ac arferion derbyn. Mae derbyniadau sy'n mynd dros PAN yn briodol mewn amgylchiadau penodol.

Cymeradwyodd yr aelodau'r adroddiad, gan gydnabod y byddai yna rywfaint o ddiwygio ar sail y trafodaethau.

## 7. Polisi Derbyn Ysgolion Drafft yr Awdurdod Lleol 2023-2024

Dywedodd DD wrth yr aelodau fod rhai mân newidiadau yn cael eu cynnig, gyda'r nod o wella eglurder neu i adlewyrchu arfer presennol o fewn y polisi. Roedd dyddiadau ar gyfer rowndiau derbyn a dyddiadau geni cymwys wedi'u newid, yn ôl yr angen.

Amlinellwyd y prif newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

- cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch achosion lle gall fod gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn cais ar gyfer derbyn i ysgol;
- rhoi'r gorau i ohirio derbyniadau ar gyfer unrhyw geisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, waeth beth fo'r amgylchiadau; a

- cynnydd bychan yn y niferoedd derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Bryncethin, Ysgol Gynradd Llangynwyd ac Ysgol Gynradd Porthcawl.

Trafodwyd y rhesymau dros bob newid arfaethedig. Derbyniwyd yr angen i gryfhau geiriad y polisi mewn perthynas â darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, o ystyried goblygiadau cynnig lleoedd mewn ysgolion y mae gormod yn ymgeisio am leoedd ynddynt pan na fyddent wedi cael cynnig pe bai'r wybodaeth gywir wedi'i darparu. Fodd bynnag, cynigiwyd newid bychan i'r geiriad, a chytunodd yr aelodau.

Atgoffodd DD yr aelodau o'r cefndir i gyflwyno cais i ohirio mynediad ar gyfer derbyniadau/trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn a'r amgylchiadau pan oedd gohiriad yn cael ei ddefnyddio. Cyfeiriodd DD at drafodaethau a phenderfyniadau'r fforwm ar ohirio mynediad yn 2022-2023. Dywedodd DD wrth yr aelodau am gyngor cyfreithiol yn nodi gan mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn, ni allai gohirio fod yn benderfyniad dewisol i ysgolion. Yn ogystal, roedd gohirio yn hynod amhoblogaidd gyda rhieni ac yn cael effaith andwyol sylweddol ar bresenoldeb ysgol y disgyblion hynny yr oedd yn cael ei gymhwyso iddynt. Dywedodd RD wrth yr aelodau fod yr arfer eisoes wedi dod i ben ar gyfer derbyniadau 2021-2022, yn dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid mewn cyfarfod Tîm Pen-y-bont ar Ogwr. Gwnaed y penderfyniad i gydnabod yr effeithiau andwyol, gan waethygu effeithiau'r pandemig o ran dysgu a gollwyd.

Amlygodd aelodau o ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir bryderon ynghylch y rhesymau dros rai ceisiadau am drosglwyddo a lefel y wybodaeth gefndir a ddarperir i ysgolion. Ystyriwyd y gallai rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r ysgol gyfredol y gwnaed cais am le ynddi fod yn fuddiol mewn rhai achosion, fel y gellid cynnal trafodaethau. Amlygodd DD bod gan yr awdurdod derbyn ofyniad cyfreithiol i brosesu cais ar gyfer derbyn. Ni fu unrhyw adegau pan oedd gohirio mynediad a cheisio'r cyfle i drafod rhwng yr ysgol bresennol a'r rhiant wedi arwain at dynnu cais trosglwyddo yn ôl.

Mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarperir i ysgolion, dywedodd DD wrth yr aelodau fod camau ar y gweill i alluogi'r cais llawn i gael ei gyflwyno i'r ysgol sy'n derbyn. Fodd bynnag, efallai na fydd y ffurflen gais yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu bod unrhyw anawsterau neu broblemau wedi codi. Cadarnhawyd, unwaith y bydd y penderfyniad derbyn yn cael ei wneud gan yr awdurdod lleol a'i gyfleu i'r ysgol, bod yr ysgol sy'n derbyn mewn sefyllfa i gysylltu â'r ysgol bresennol fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth berthnasol a phriodol er mwyn paratoi ar gyfer y plentyn yn dechrau'r ysgol.

Awgrymodd RDi y dylid darparu siart llif wedi'i diweddaru i ysgolion ar gyfer derbyniadau/trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn a chadarnhaodd RD y gellid gweithredu hyn.

Cytunodd yr Aelodau i roi'r gorau i'r arfer o ohirio mynediad ar gyfer polisi 2023-2024.

Cymeradwywyd y mân newidiadau i'r niferoedd PAN.

Cadarnhaodd DD y byddai'r polisi'n cael ei ddosbarthu ar gyfer ymgynghoriad, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, fel y byddai'r trefniadau derbyn ar gyfer 20213-2024 yn cael eu pennu'n llawn erbyn 15 Ebrill 2022.

## 8. Polisïau derbyn drafft ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir 2023-2024

Roedd polisïau ar gyfer tair o'r pum ysgol wirfoddol a gynorthwyir wedi'u derbyn, i'w hystyried gan y fforwm. Nodwyd y dylai'r awdurdod lleol gael copi o'r holl bolisïau, gan ei fod yn ymgynghorai allweddol o dan y ddeddfwriaeth. Dylai'r fforwm hefyd gael y cyfle i ystyried y trefniadau arfaethedig ar gyfer pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir, o ystyried ei rôl gyffredinol o ran derbyniadau ysgolion yn y sir.

Nodwyd bod rhai o'r polisïau'n hynod gryno. Yn dilyn trafodaeth, awgrymwyd y gallai ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ystyried mabwysiadu adrannau o bolisi'r awdurdod lleol bob blwyddyn, er mwyn sicrhau bod eu polisïau yn gynhwysfawr. Cydnabuwyd bod y polisi arfaethedig ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Archddiacon John Lewis eisoes yn adlewyrchu'r agwedd honno.

Cytunwyd y byddai JT yn trafod y mater gyda'i gydweithwyr mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, gan amlygu'r cynnwys a'r gofynion ymgynghori ar bob awdurdod derbyn.

## 9. Unrhyw fater arall

Gofynnodd KJ am siart strwythur Gwasanaethau Disgyblion gydag esboniadau o rolau a rhaniad presennol yr ysgolion rhwng swyddogion. Cadarnhaodd DD y byddai hyn yn cael ei roi ar waith.

Mynegodd KJ bryder y gall anawsterau godi o ran delio ag ymholiadau os nad yw'r Swyddog Gwasanaethau Disgyblion a neilltuwyd i ysgol ar gael. Amlygodd DD fod y tîm yn fach iawn, gyda dim ond 2.0 swyddog cyfwerth ag amser llawn, felly pan fo absenoldebau am unrhyw reswm, gall hyn gael effaith sylweddol ar weithrediadau. Oherwydd swyddi rhan-amser a phatrymau gwaith, efallai y bydd dyddiau pan mai dim ond un swyddog sydd yn gweithio. Fodd bynnag, dywedodd DD fod y Swyddogion Gwasanaethau Disgyblion yn gwneud yr un gwaith ac y gallant ymdrin ag ymholiadau mewn perthynas ag unrhyw ysgol, er bod yna swyddog arweiniol enwebedig ar gyfer pob ysgol at ddiben meithrin gwybodaeth fanwl a chysylltiadau. Roedd dyraniad ysgolion i swyddogion hefyd yn cael ei gylchdroi'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwybodaeth gyffredin. Nodwyd bod DD ar gael cymaint â phosibl ar gyfer ymholiadau gan unrhyw ysgol ar unrhyw fater.

Amlygodd BD fod rhai rhieni wedi mynegi anawsterau gyda dyddiad cau cynnar y rownd derbyn i Ddosbarthiadau Meithrin Rhan-amser. Eglurodd DD fod y pryder wedi'i gydnabod a'i fod wedi cael sylw ym Mholisi Derbyn i Ysgolion 2022-2023. Nodwyd bod dyddiad agor y rownd dderbyn ar yr un diwrnod â'r rownd derbyn i Ddosbarthiadau Meithrin Llawn Amser, ond roedd y dyddiad cau ar gyfer y rownd derbyn i Ddosbarthiadau Meithrin Rhan-amser, ar gyfer lleoedd ym mis Ionawr ac Ebrill 2023, wedi'i ymestyn o fis Mawrth i ddiwedd mis Awst 2022.

Cyfeiriodd DD at y newidiadau a wnaed ar ôl ymgynghori ar y Polisi Derbyn i Ysgolion 2022-2023, er mwyn sicrhau ei bod yn glir nad oes unrhyw ddalgylchoedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd meini prawf goralw am leoedd ar wahân hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cadarnhaodd RD fod yr ysgolion cyfrwng

Cymraeg yn fodlon gyda'r newidiadau a wnaed ac na chodwyd unrhyw faterion pellach i'w hystyried gan y fforwm.

## 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Ni chytunwyd ar ddyddiad penodol ond cydnabuwyd y cynllun ar gyfer cyfarfod yn nhymor y gwanwyn.

Diolchodd RD i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.